# CYNLLUN CYMORTH I BRYNU CAR CANLLAWIAU I YMGEISWYR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithredu Cynllun Benthyciad i roi cymorth i rai gweithwyr brynu ceir. Yn rhan o'r cynllun, caiff cymorth ei roi drwy fenthyciad, sy'n ad-daladwy gyda llog a chaiff ei ddidynnu o gyflog misol y gweithiwr cyn iddo dderbyn y cyflog hwnnw. Bydd unrhyw gerbyd a brynir yn y modd yma wedi'i gofrestru yn enw'r gweithiwr y rhoddir y benthyciad iddo, a'r gweithiwr fydd perchennog swyddogol y car i bob pwrpas. **Serch hynny, rhaid datgelu buddiant y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn y cerbyd i yswirwyr y cerbyd, hyd nes y bydd y benthyciad a wnaed, ynghyd â'r taliad llog dilynol, wedi'u had-dalu'n llawn.**

Wrth ymgymryd â'r Cynllun Cymorth i Brynu Car, mae'n ofynnol i'r gweithiwr dalu'r premiwm ar Fond Indemniad a gymerwyd gan y Cyngor. Bydd hyn yn diogelu'r Cyngor yn erbyn unrhyw golled y gallai ei ddioddef pe bai'r gweithiwr yn methu unrhyw daliadau. Gellir cynnwys cost y bond Indemniad yng nghost y benthyciad, os yw'r gweithiwr am wneud hynny, ar yr amod nad yw'n mynd â'r benthyciad y tu hwnt i'r terfyn uchaf a ragnodir ar hyn o bryd. Fel arall mae modd ei dalu ar wahân.

**BYDD UNRHYW GRANT AM GYMORTH O DAN Y CYNLLUN YN AMODOL AR YR AMODAU A AMLINELLIR YN Y CYTUNDEB Y BYDD GOFYN I'R GWEITHIWR EI LOFNODI.**

## 1. GWEITHWYR SY'N GYMWYS I GAEL CYMORTH O DAN Y CYNLLUN.

1.1 Mae pob gweithiwr parhaol yn gymwys i gael cymorth o dan y cynllun ar yr amod ei fod wedi teithio 1,500 o filltiroedd i gyflawni busnes y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ystod y 12 mis blaenorol.

## 2. SWM Y CYMORTH I'W DDARPARU.

2.1 Uchafswm y cymorth y gellir ei roi o dan y Cynllun Cymorth i Brynu Car fydd gwerth y cerbyd i'w brynu, yn amodol ar y canlynol:

- ei fod o dan yr uchafswm cyfredol a bennir gan y Cyngor.

- bod modd i bris y car newydd fod yn uwch na'r pris "ex works" yn ôl cost taliadau danfon, platiau rhif, a **phethau ychwanegol eraill sy'n rhan o'r car**. Ni roddir cymorth o dan unrhyw amgylchiadau tuag at gost Trwydded neu Yswiriant y Gronfa Ffyrdd. Dylai ymgeiswyr sicrhau na chaiff y costau hyn eu cynnwys.

- bod pris y car ail law yn gyfystyr â'r gwerth hwnnw a ardystiwyd gan Beiriannydd Moduron Annibynnol a Chymwysedig. Rhaid i'r adroddiad fod ar ddeunydd ysgrifennu busnes swyddogol gan nodi disgwyliad oes a gwerth y cerbyd mewn blynyddoedd - rhaid i'r ffigurau yma fod yn fanwl. (Sylwer nad yw pob cwmni peirianneg ceir yn darparu gwybodaeth mor benodol. Byddai'n ddoeth gwirio gyda'r cwmni cyn defnyddio ei wasanaethau).

2.2 Bydd gwerth unrhyw gerbyd a roddwyd mewn cyfnewid rhannol, neu a waredir yn ystod y 12 mis blaenorol, neu a gedwir gan y gweithiwr, ac y mae lwfans car modur wedi'i hawlio oddi wrth y Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi'i hawlio arno yn ystod y cyfnod hwn yn y 12 mis blaenorol, yn cael ei dynnu o'r uchafswm cymorth perthnasol.

2.3 Ni fydd y cerbyd sydd i'w brynu yn destun unrhyw Gytundeb Hurbrynu neu Gredyd arall sy'n rhoi'r cerbyd yn y fantol. **Mae'n rhaid mai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r unig drydydd parti sydd â buddiant yn y cerbyd sy'n cael ei brynu.**

2.4 Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cadw'r hawl i alw am brisiad annibynnol o'r cerbyd sy'n cael ei waredu/ei gadw gan y gweithiwr, os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny. Os bernir bod hyn yn angenrheidiol, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw talu am brisiad o'r fath.

2.5 Ar yr amod nad eir y tu hwnt i uchafswm y cymorth a nodir ym Mharagraff 2.1, gall y balans sy'n weddill ar unrhyw fenthyciad presennol gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol fod yn rhan o'r cymorth a roddir, a gellir ei drosglwyddo a'i ychwanegu at fenthyciad newydd.

**3. CYFNOD Y CYMORTH.**

3.1 Y cyfnod hwyaf y bydd cymorth yn cael ei roi mewn perthynas â benthyciad fydd 5 mlynedd, ac eithrio yn achos cerbyd ail law sydd dros dair blwydd oed ar ddyddiad y pryniant, lle bydd uchafswm y cyfnod cymorth yn cael ei gyfyngu i 4 blynedd.

**4. CYFFREDINOL.**

4.1 Mae'n ofynnol i'r gweithiwr gyflwyno'r archeb/anfoneb/dyfynbris gwreiddiol i'r Prif Swyddog, neu'r Cyfarwyddwr Personél yn achos y Prif Swyddog neu ddeiliaid swyddi cysylltiedig. Rhaid gwneud hyn ar adeg cyflwyno'r cais, ac o fewn mis calendr o dderbyn y benthyciad, a bydd hefyd angen darparu Bil Gwerthu gwreiddiol â derbynneb yn dangos manylion pris prynu’r cerbyd ynghyd â dogfen gofrestru lawn y cerbyd. **Ni fydd llungopïau yn cael eu hystyried yn dderbyniol.**

Yn ogystal â hynny, efallai y bydd gofyn i'r gweithiwr gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o'r swm a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw gerbyd a waredwyd o fewn y 12 mis blaenorol.

**BYDD PEIDIO Â CHYDYMFFURFIO AG UNRHYW UN O'R AMODAU HYN YMA'N ARWAIN AT ORFOD TALU'R BENTHYCIAD LLAWN A'R TALIADAU LLOG DILYNOL YN ÔL YN SYTH.**

4.2 Lle bo unrhyw newid mewn amgylchiadau sy’n effeithio ar y cais hwn yn digwydd rhwng dyddiad cyflwyno'r cais am fenthyciad a dyddiadau casglu'r cerbyd, neu’n ddiweddarach, rhaid adrodd yn ysgrifenedig ar y rhain i’r Prif Swyddog, neu’r Cyfarwyddwr Personél, yn achos Prif Swyddogion a deiliaid swyddi cysylltiedig.

**5. AD-DALU'R CYMORTH.**

5.1 Bydd unrhyw weithiwr sy'n derbyn cymorth yn ad-dalu'r swm llawn, ynghyd â llog ar y gyfradd a nodir yn Llawlyfr Amodau Gwasanaeth Cenedlaethol y Cyd-gynghorau ar gyfer Staff Awdurdodau Lleol, i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

5.2 Bydd yr ad-daliadau ar ffurf rhandaliadau cyfartal a dynnir o gyflog y gweithiwr dros gyfnod y benthyciad. Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau, bydd angen ad-dalu balans y cymorth ynghyd â llog i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar unwaith.

5.3 Bydd amgylchiadau o’r fath yn cynnwys:

- os yw'r gweithiwr yn gadael ei swydd gyda'r Cyngor.
- os yw'r gweithiwr yn marw.
- os yw'r gweithiwr yn rhoi'r gorau i dderbyn lwfans car modur.
- os yw’r gweithiwr yn mynd yn Fethdalwr neu'n Cofnodi Ansolfedd.
- os yw'r gweithiwr yn cyflawni gweithred sy’n arwain at drydydd parti'n atafael y cerbyd mewn modd cyfreithlon.

RHONDDA CYNON TAF

• os yw'r gweithiwr yn gwerthu, llogi neu roi'r cerbyd i rywun arall.

• os yw'r gweithiwr yn methu ag yswirio’r cerbyd mewn modd cynhwysfawr, neu

• os yw'r gweithiwr yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r telerau a gynhwysir yn ei Gytundeb.

**NI DDYLAI CAR SY'N DESTUN CYMORTH O DAN Y CYNLLUN YMA GAEL EI WERTHU, EI GYFNEWID, NEU'I DDISODLI HEB GYMERADWYAETH YSGRIFENEDIG Y PRIF SWYDDOG, NEU GYFARWYDDWR PERSONÉL, YN ACHOS PRIF SWYDDOGION A DEILIAID SWYDD GYSYLLTIEDIG. BYDD MODD CYMRYD YN GANIATAOL BOD CYMERADWYAETH O'R FATH YN CAEL EI ROI OS YW CAIS AM FENTHYCIAD DILYNOL YN CAEL EI GYMERADWYO.**

**BYDD UNRHYW WEITHIWR SYDD DDIM YN PARCHU'R RHEOLAU YMA, NEU'N GWNEUD DATGANIAD ANGHYWIR WRTH WNEUD CAIS AM GYMORTH BYDD YN DESTUN CAMAU DISGYBLU, A ALLAI ARWAIN AT DDISWYDDO. OS BYDD ACHOS O'R FATH, BYDD GOFYN I'R GWEITHIWR AD-DALU'R HOLL ARIAN SY'N WEDDILL I'R FWRDEISTREF SIROL AR UNWAITH. FYDD DIM MODD I'R GWEITHIWR FANTEISIO AR Y CYNLLUN YMA ETO YN Y DYFODOL.**

**6. FFURFLENNI CAIS.**

6.1 Mae ffurflenni cais ar gael ar Inform ac ar ôl eu cwblhau dylid eu dychwelyd i'r Prif Swyddog priodol i'w cymeradwyo, neu, yn achos Prif Swyddogion a deiliaid swyddi cysylltiedig, at y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.

6.2 **Rhaid** cyflwyno anfoneb/dyfynbris gwreiddiol y gwerthwr mewn perthynas â'r cerbyd i'w brynu ynghyd â'r ffurflen gais. **Dydyn ni ddim yn derbyn llungopïau**.

6.3 Ni roddir unrhyw sicrwydd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol y bydd cymorth yn cael ei roi mewn unrhyw achos penodol, ac **ni ddylai gweithwyr felly wneud unrhyw drefniadau pendant gyda gwerthwyr cyn i'w cais gael ei gymeradwyo**.

6.4 Ni fydd unrhyw gais am gymorth yn cael ei ystyried lle mae’r gweithiwr wedi cael gafael ar y cerbyd a/neu wedi talu amdano cyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cais. **Gellir gwneud sieciau benthyciad yn daladwy i naill ai'r ymgeisydd (y gweithiwr) neu'r gwerthwr**. Dylid cymryd gofal felly i sicrhau bod yr enw a roddir ar y ffurflen gais yn cyd-fynd â'r enw y dylid ei nodi ar y siec.

**7. Y GOFYNION O RAN YSWIRIANT.**

7.1 Tynnir sylw arbennig at Gymal 9 y Cytundeb Cynllun Cymorth i Brynu Car a lofnodwyd gyda'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mae'r cymal hwn yn nodi:

Bydd y gweithiwr yn trefnu ar unwaith i’r cerbyd dan sylw gael ei yswirio a’i gadw wedi’i yswirio yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn. Bydd y gweithiwr yn talu am bolisi yswirio gan gwmni sydd ag enw da, a bydd y bolisi ar ffurf gynhwysfawr gan gynnwys yswiriant at ddefnydd busnes, ac yswiriant yn erbyn colled neu ddifrod i'r cerbyd dywededig trwy dân, lladrad, a phob risg arferol arall.

Bydd modd i'r gweithiwr ddangos tystiolaeth o'r polisi yswiriant yma ar gais a hynny ar unrhyw adeg, yn ogystal â derbyniad premiwm y flwyddyn gyfredol i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mewn achos o golled neu ddifrod i'r cerbyd dan sylw, bydd y gweithiwr yn rhoi gwybod ar unwaith i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, ac os bydd unrhyw arian yn cael ei dderbyn gan yr Yswirwyr oherwydd difrod i'r cerbyd dan sylw, bydd y gweithiwr yn defnyddio'r arian hwnnw i adfer y cerbyd i'w gyflwr blaenorol. Os bydd difrod o’r fath yn gwneud y cerbyd dan sylw yn golled lwyr, neu os collir y cerbyd dan sylw trwy ladrad, bydd y gweithiwr yn ad-dalu balans cyfan y

benthyciad o'r fath a'r taliadau llog sy'n weddill i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Ni fydd y gweithiwr yn cyflawni unrhyw weithred a fyddai'n gwneud y polisi yswiriant a enwyd yn annilys neu'n ddi-rym, ac yn benodol, ni chaiff yrru'r cerbyd dan sylw heb drwydded yrru gyfredol.

Rhaid i'r gweithiwr ddatgan ar unwaith i'r Yswirwyr fuddiant y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn y cerbyd, ac mae gofyn i unrhyw bolisi yswiriant a weithredir gan y gweithiwr gael ei gymeradwyo'n unol â hynny. Dylid nodi buddiant o'r fath mewn perthynas ag ef.

7.2 Yn syth bin wedi cymeradwyo benthyciad, dylai gweithiwr wneud y trefniadau angenrheidiol gyda'i Gwmni Yswiriant Modur i gofrestru buddiant y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn y cerbyd, a hynny ymhell cyn llofnodi'r Cytundeb.

**8. BOND INDEMNIAD.**

8.1 Mae'n ofynnol i'r gweithiwr ymgymryd â Bond Indemniad. Bydd hyn yn diogelu'r Cyngor yn erbyn unrhyw golled y gallai ei ddioddef pe bai'r gweithiwr yn methu unrhyw daliadau yn rhan o'r Cynllun Cymorth i Brynu Car. Bydd y Cyngor yn trefnu'r Bond ar ran y gweithiwr, a hynny drwy ei Gwmni Yswiriant enwebedig. Gellir cynnwys cost y Bond Indemniad yng nghost y benthyciad, os yw'r cyflogai'n gofyn, ar yr amod bod hyn ddim yn mynd y tu hwnt i uchafswm y benthyciad. Fel arall, gellir ei dalu ar wahân.

8.2 Bydd cost y Bond Indemniad yn seiliedig ar gyfradd benodedig am bob £1,000 o fenthyciad a gymerir. Gellir cael manylion y taliadau cyfredol gan yr Uwchadran Materion Cyllid drwy ffonio 01443 680 741.

**9. DEFNYDDIO'R CERBYD.**

9.1 Pwrpas Benthyciad Cymorth i Brynu Car yw galluogi gweithwyr i brynu cerbyd i'w ddefnyddio ar gyfer dyletswyddau swyddogol. Felly, pe bai gweithiwr sy'n derbyn benthyciad o'r fath yn methu â sicrhau bod ei gerbyd ar gael ar gyfer dyletswyddau o'r fath, byddai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn methu yn ei ddyletswydd i sicrhau bod ei arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol pe na bai'n cymryd camau I adennill gweddill y benthyciad sy'n weddill ynghyd â'r taliadau llog sy'n ddyledus.

**MAE'R DDOGFEN YMA'N NODI POLISI A RHEOLAU'R CYNGOR BWRDEISTREF SIROL. NI DDYLID NEWID Y DDOGFEN O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU**

RHONDDA CYNON TAF

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**